**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**21/07/2023**

**Teitl:** Datganiad o Gyfrifon y BUEGC am 2022/23.

**Awdur:** Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya (Swyddog Cyllid Statudol)

Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

**2.1 Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon Drafft y BUEGC (yn amodol ar archwiliad) am 2022/23.**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Nid oes gofyn statudol i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyd-Bwyllgor, ond rydym yn ystyried fod cyflwyno'r datganiad drafft er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.

3.2 Bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn terfynol ar ôl derbyn adroddiad Archwilio Cymru, ond mae cyflwyno'r fersiwn ddrafft rŵan yn gyfle i aelodau'r Bwrdd ystyried y cynnwys a holi swyddogion ariannol am y cynnwys. Mae hyn yn gyfle i'r aelodau arfogi

eu hunain gyda gwybodaeth perthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Cyflwynwyd adroddiad ar sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf i'r Bwrdd ar 5 Mai 2023. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

4.2 Mae'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wrthi'n cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru, a cyflwynir y fersiwn derfynol yn dilyn archwiliad i'w gymeradwyo mewn cyfarfod diweddarach o'r BUEGC.

**5. Goblygiadau Cyfreithiol**

5.1 Noda Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl Gyd-Bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

**6. Atodiadau**

Atodiad 1 – Datganiad o Gyfrifon y BUEGC am 2022/23

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol – Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.